**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion **Panel Gweithredol** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 15 Mehefin 2026, yn rhithwir dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 14.00 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **yn cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Young (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Rondo Roberts | Cyngor Sir Wrecsam |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Gareth Williams (o14:32) | Cyngor Sir Gwynedd |
| Antony Wren | Cyngor Sir y Fflint |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Paul Rogers | Cyngor Sir Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Anthony Jones | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Mike Plant | Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid |
| Lee Bourne | Pennaeth Hyfforddiant a Datblygu |
| Dafydd Edwards | Ymgynghorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Steve Morris | Pennaeth TGCh |
| Heledd Davies | Atebol - Cyfieithydd |
| Ffion Evans | Cynorthwyydd Gweithredol – cofnodydd |

**1.0 YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **yn cynrychioli** |
|---|---|
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Paul Cunningham | Cyngor Sir y Fflint |
| Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

**YN ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **yn cynrychioli** |
|---|---|
| Gareth A Roberts | Cyngor Sir Gwynedd |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |

## 2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd unrhyw hysbysiadau o faterion brys.

## 4.0 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 MAWRTH 2026

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2026 i'w cymeradwyo. Cynigiwyd eu bod yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion. Eiliwyd hyn a'i basio gyda phawb o blaid.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

## 5.0 RISGIAU A MESURAU LLINIARU PROSIECT CANOLFAN HYFFORDDI HWB AWEN

5.1 Cyflwynodd PSTC Justin Evans Risgiau a Mesurau Lliniaru Prosiect Canolfan Hyfforddi Hwb Awen i’r Aelodau. Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â phrosiect Canolfan Hyfforddi Hwb Awen, y mesurau lliniaru sydd ar waith, a'r camau sydd ar y gweill i sicrhau cyllid a chynnal rheolaeth briodol ar y rhaglen.

5.2 Nododd Aelod fod prosiect Canolfan Hyfforddi Hwb Awen yn hanfodol i ddiogelwch diffoddwyr tân yn y dyfodol. Tynnodd yr Aelod sylw hefyd at bryderon ynghylch goblygiadau cyllid, gan gynnwys ei effaith bosibl ar ddiffoddwyr tân, risg i gyfleusterau a'r pwysau ariannol sydd eisoes yn wynebu Awdurdodau Lleol.

5.3 Rhoddodd PSTC Justin Evans sicrwydd i'r Aelodau fod yr achos amlinellol strategol a'r achos busnes amlinellol wedi'u cyflwyno i'r Panel Gweithredol yn flaenorol, lle cafodd opsiynau, risgiau a chydymffurfiaeth gyfreithiol eu hystyried a'u trafod yn llawn.

5.4 Rhoddodd PSTC Helen MacArthur sicrwydd pellach i'r Aelodau y byddai ffrydiau gwaith cyllido yn cael eu hystyried a'u goruchwylio drwy lywodraethiant y Grŵp Craffu ar y Gyllideb.

5.5 Gofynnodd Aelod a oedd y pwysau disgwyliedig sy'n gysylltiedig â sefydlu canolfan hyfforddi wedi'u hystyried a gofynnodd am fanylion gwariant hyd yma. Rhoddodd PSTC Justin Evans sicrwydd bod gwariant yn parhau i fod o fewn y paramedrau y cytunwyd arnynt gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod). Darparwyd manylion y gwariant hyd yma i'r Aelodau ar ôl y cyfarfod.

5.6 Gofynnodd Aelod a gysylltwyd ag Uchelgais Gogledd Cymru i geisio sicrhau persbectif strategol, rhanbarthol ar draws yr awdurdodau. Rhoddodd y Prif Swyddog Tân sicrwydd ei bod hi a PSTC Anthony Jones eisoes wedi cwrdd ag Uchelgais Gogledd Cymru, wedi adolygu'r meini prawf cyllido, a nodi y byddai sicrhau buddsoddiad sector preifat yn heriol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), mae gwaith yn cael ei wneud mewn cydweithrediad â sefydliadau partner i archwilio'r potensial ar gyfer cais am gyllid ar y cyd.

5.7 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r risgiau a'r mesurau lliniaru presennol sy'n gysylltiedig â phrosiect Canolfan Hyfforddi Hwb Awen;**

**ii) Nodi'r addasiad arfaethedig i'r rhaglen i ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer cyllid ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid; a**

**iii) Nodi nad oes unrhyw ofyniad i ymrwymo i gyllid ar hyn o bryd, ond efallai y bydd cynigion yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau eu hystyried os na ellir sicrhau llwybrau cyllido allanol.**

## 6.0 DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL DRAFFT 2025/26

6.1 Cyflwynodd PSTC Anthony Jones Ddatganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2025/26 a roddodd sicrwydd i'r Aelodau fod gan yr Awdurdod drefniadau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol effeithiol ar waith, yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol 2025-26.

6.2 Nododd y Cadeirydd fod y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol drafft wedi'i adolygu yn y bore gan y Pwyllgor Archwilio a gofynnodd a oedd unrhyw beth pellach y dylai'r Panel Gweithredol fod yn ymwybodol ohono. Rhoddodd PSTC Anthony Jones grynodeb o'r pynciau a drafodwyd i'r Aelodau.

6.3 Gofynnodd Aelod, o ystyried canlyniad cadarnhaol yr archwiliad mewnol a chydnabyddiaeth bod angen cryfhau'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni, a oedd unrhyw gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn. Hysbysodd PSTC Anthony Jones yr Aelodau fod y Gwasanaeth wedi penodi Swyddog Cefnogi Prosiectau, a oedd wedi cynnal archwiliad o sefyllfa bresennol y Gwasanaeth. Yn ogystal, roedd gwerthusiad swydd ar y gweill ar gyfer rôl Swyddog Rheoli Prosiectau pwrpasol.

6.4 Gofynnwyd ymhellach a oedd paratoadau wedi'u gwneud ar gyfer llithriad posibl yn yr amserlen yn ymwneud â gweithredu'r Diwygiad Llywodraethiant newydd ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Rhoddodd y Prif Swyddog Tân sicrwydd bod hyn yn ymwneud yn bennaf ag Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a chadarnhaodd nad yw'r trefniadau hyn wedi'u rhoi ar waith eto. Atgoffodd y Prif Swyddog Tân yr Aelodau y gallai pryderon mewn perthynas â'r Diwygio Llywodraethiant gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru sydd newydd ei ethol pe bai'r Aelodau yn dymuno.

6.5 Nododd y Cadeirydd fod y diffyg eglurder hwn yn broblemus a chynigiodd y dylid anfon llythyr at Lywodraeth Cymru. Eiliwyd hyn a'i basio gan bawb.

6.6 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi cynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2025-26;**
- **ii) Cymeradwyo bod Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2025-26 yn cael ei ddarparu i Archwilio Cymru yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014; ac**
- **iii) Awdurdodi'r Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurder ynghylch y broses weithredu ar gyfer y Diwygio Llywodraethiant.**

## 7.0 DATGANIAD O GYFRIFON BLYNYDDOL DRAFFT 2025/26

7.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur y Datganiad o Gyfrifon Blynyddol drafft ar gyfer 2025/26, sy'n cynnwys yr alldro refeniw a chyfalaf, sefyllfa'r fantolen, a symudiadau ariannol allweddol ar gyfer yr Awdurdod. Nodwyd bod yr Awdurdod wedi cynnal sefyllfa ariannol sefydlog er gwaethaf pwysau ariannol parhaus.

7.2 Gofynnodd Aelod a oedd yr heriau yn ymwneud â chyllid wedi'u hystyried yn llawn, gan gynnwys a oeddent yn ddigonol ac yn gallu cefnogi cyfraniadau tuag at y Ganolfan Hyfforddi. Rhoddodd PSTC Helen MacArthur sicrwydd bod cronfeydd wrth gefn wedi'u hymrwymo a'u rheoli o fewn y gronfa gyffredinol. Nodwyd gwelliannau mewn strategaeth a rhagolygon hefyd, a chadarnhaodd PSTC Helen MacArthur eu bod yn fodlon â'r sefyllfa bresennol.

7.3 Canmolodd y Cadeirydd y PSTC a'r Tîm Cyllid am y gwaith a wnaed.

7.4 Gofynnodd Aelod am y gwydnwch ar gyfer siociau posibl sy'n deillio o gostau diesel a phetrol cyfnewidiol a'r effaith ar fflyd y Gwasanaeth. Cadarnhaodd PSTC Helen MacArthur fod y pwysau hwn wedi'u rheoli'n effeithiol, gyda chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar waith i liniaru risgiau o'r fath.

7.5 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi'r sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf heb ei archwilio;**
- **ii) Nodi sefyllfa'r fantolen heb ei harchwilio;**
- **iii) Nodi a chymeradwyo'r symudiad i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt; a**
- **iv) Chymeradwyo'r ymateb i Archwilio Cymru mewn perthynas â materion llywodraethiant sy'n berthnasol i'r Datganiad o Gyfrifon.**

## 8.0 RHEOLI RISG STRATEGOL

8.1 Cyflwynodd Mike Plant yr adroddiad Rheoli Risg Strategol i'r Aelodau. Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi diweddariad i'r Aelodau mewn perthynas â'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg ac i roi trosolwg o Adolygiad Risg Strategol yr Awdurdod.

8.2 Nodwyd bod yr adroddiad yn tynnu sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig â seiberddiogelwch a phwysigrwydd rheoli a lliniaru'r risgiau hyn yn rhagweithiol.

8.3 Nododd y Prif Swyddog Tân fod y Gwasanaeth wedi buddsoddi amser ac ymdrech sylweddol mewn rheoli risg, a adlewyrchwyd yn y ffaith ei fod yn un o'r ddau gwestiwn allweddol a ystyriwyd ar ddiwedd pob pwyllgor mewnol. Roedd hyn yn dangos y pwysigrwydd a roddir ar reoli risg o fewn y Gwasanaeth.

8.4 Cynghorodd y Cadeirydd yr Aelodau ei fod ef a'r Dirprwy Gadeirydd yn cyfarfod â Swyddogion perthnasol mewn perthynas â'r Gofrestr Risg Strategol bob chwarter, cyn cyfarfodydd y Panel Gweithredol

8.5 Cododd Aelod bryderon ynghylch seiberddiogelwch a'r angen am fwy o sicrwydd a manylion am y camau sy'n cael eu cymryd. Rhoddodd PSTC Helen MacArthur sicrwydd bod hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Gwasanaeth a thynnodd sylw at waith parhaus y tîm TGCh.

8.6 Cytunwyd y byddai diweddariad ar seiberddiogelwch yn cael ei roi i'r Aelodau cyn cyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Hydref.

8.7 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r Gofrestr Risg Strategol:**
**ii) Adolygu a chymeradwyo'r parodrwydd i dderbyn risg ym mharagraffau 13–20 isod: a**
**iii) Chyflwyno sesiwn hyfforddi Seiberddiogelwch yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Hydref.**

## 9.0 ADRODDIAD ASESIAD PERFFORMIAD CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT (EDI) BLYNYDDOL 2025/26,

9.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân adroddiad Asesiad Perfformiad EDI Blynyddol 2025/26. Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi trosolwg o'r cynnydd yn erbyn Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant pum mlynedd y Gwasanaeth.

9.2 Nodwyd bod yr adroddiad yn tynnu sylw at waith partneriaeth a chamau a gymerwyd mewn ymateb i'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol, gan atgyfnerthu ymrwymiad y Gwasanaeth i greu gweithle lle gall pawb ffynnu.

9.3 Nodwyd bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn culhau ac yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd cenedlaethol, a ategwyd gan gynnydd calonogol wrth i staff gael eu cefnogi fwyfwy i fynd ar drywydd cyfleoedd dyrchafiad o fewn y sefydliad.

9.4 Canmolodd y Cadeirydd y gwaith a wnaed a'i amlygu fel enghraifft o arfer da.

9.5 Nododd Aelod y gallai cyflawni cydraddoldeb cyflog llawn rhwng y rhywiau barhau i fod yn heriol. Tynnodd y Prif Swyddog Tân sylw at y ffaith bod cynnydd yn cael ei wneud, gyda mwy o fenywod yn datblygu eu gyrfaoedd o fewn y Gwasanaeth a phwysleisiwyd pwysigrwydd cynyddu cynrychiolaeth menywod mewn rolau uwch, er mwyn darparu modelau rôl gweladwy i gydweithwyr.

9.6 **PENDERFYNWYD:**

**i) Argymell cymeradwyaeth yr Awdurdod ar gyfer cyhoeddi adroddiad EDI blynyddol 2025/26 ar wefan y Gwasanaeth.**

**10.0 MATERION BRYS**

10.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:03